Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Yr ymatebion i’r ymgynghoriad ar egwyddorion a gweithdrefnau’r pwerau ymchwiliad ar ei liwt eu hun newydd a grëwyd gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Hydref 2019).

| Ymgynghorai | Crynodeb o'r Sylwadau | Camau gweithredu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) |
|---|---|---|
| Cymwysterau Cymru | Dim sylwadau ar ddogfennau menter ei hun | Ddim yn berthnasol |
| Cyngor Dinas Casnewydd | Dim sylwadau ar ddogfennau menter ei hun | Ddim yn berthnasol |
| Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) | "Rydym yn falch o weld ffurfioli'r meini prawf diffiniedig ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliadau ar ei liwt ei hun …'<br><br>"Rydym yn ystyried bod y meini prawf ar gyfer dechrau ymchwiliad ehangach yn gytbwys. Mae'n briodol bod tystiolaeth sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniad i ddechrau ymchwiliad yn gysylltiedig ag amheuon… bod camweinyddu systemig neu fethiant yn y gwasanaeth wedi bodoli … Gallai hyn fynd llaw yn llaw ag astudiaethau achos er mwyn dangos y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen."<br><br>"Mae'r adran asesu tystiolaeth … yn ymddangos yn gymesur ac yn ystyried ffactorau fel y 'pwysau' a 'pha mor argyhoeddiadol' yw'r dystiolaeth. Fodd bynnag, dylid diffinio ac egluro'r | Ddim yn berthnasol<br><br>Byddwn yn creu tudalen wybodaeth ar fy ngwefan ynglŷn ag Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun, a fydd yn cynnwys enghreifftiau i ddangos y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen.<br><br>Bydd diffiniadau o dermau yn ymddangos ar y dudalen uchod ar fy ngwefan. |

| Ymgynghorai | Crynodeb o'r Sylwadau | Camau gweithredu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) |
|---|---|---|
| Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) (Parhau) | termau hyn er mwyn cael gwared ag unrhyw amwysedd." | |
| | "Byddai'n ymddangos bod cynnal ymarfer [ymgynghori] yn gam naturiol yn y broses ac rydym yn cefnogi cynnwys cyrff rheoleiddiol a'r Archwilydd Cyffredinol fel ffynonellau i ymgynghori â nhw. Byddem yn awgrymu bod y rhestr o sefydliadau yn cael ei helaethu i gynnwys cyfeiriad at …gyrff cydnabyddedig eraill" | Bydd Adran 6.2 o'r Weithdrefn yn cael ei diwygio er mwyn cynnwys cyfeiriad at gyrff eraill. |
| | "Mae cyflwyno ymchwiliadau estynedig, sy'n deillio o gwynion sy'n bodoli, yn ddefnyddiol er mwyn ymdrin â phryderon sydd wedi cael eu mynegi gan rai o'n haelodau yn y gorffennol, ynghylch y graddau y gallen nhw fod yn gyfrifol am broblem systemig ehangach. Mae'r enghraifft [yn] y Weithdrefn … yn berthnasol iawn i'n haelodau sy'n feddygon teulu…" | Ddim yn berthnasol |
| | "Nodwn y gellid prosesu ymchwiliadau estynedig, os ydyn nhw yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd, o dan reoliadau Gweithio i Wella. Byddem yn croesawu eglurder yn y maes hwn... " | Bydd Adran 5.8 o'r Weithdrefn yn cael ei diwygio er mwyn egluro y gellid defnyddio Gweithio i Wella. |

| Ymgynghorai | Crynodeb o'r Sylwadau | Camau gweithredu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Dim sylwadau ar y dogfennau ar ei Liwt ei Hun | Ddim yn berthnasol |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | " ... mae'r dogfennau yn amlinellu camau eglur a diamwys i'w dilyn. Wrth benderfynu a ddylid dechrau ymchwiliad newydd neu ymestyn ffiniau ymchwiliad sy'n bodoli, rydym yn argyhoeddedig bod trefniadau diogelu cadarn a digonol yn y system er mwyn sicrhau bod yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pwerau hyn yn gynnil a chyda chyfiawnhad priodol, wrth benderfynu a ddylid symud ymlaen gydag 'ymchwiliad ar ei liwt ei hun' ai peidio.<br><br>' … mae'r pwerau newydd yn ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer Swyddfa'r Ombwdsmon ac felly rydym yn eu croesawu." | Ddim yn berthnasol |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | "A ddylid ystyried cyflwyno'r dystiolaeth i arolygiaeth neu gorff proffesiynol arall pe bai'n ymddangos fel ei bod yn faes lle y byddai'n fwy priodol i gynnal ymchwiliad?" | Mae ymadrodd ychwanegol wedi cael ei ychwanegu at bwynt 5 o'r ddogfen Meini Prawf, er mwyn datgan y gall sefydliadau eraill fod mewn gwell sefyllfa i ymchwilio nag OGCC. |

| Ymgynghorai | Crynodeb o’r Sylwadau | Camau gweithredu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) |
|---|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | “… mae’r meini prawf ar gyfer ymchwiliad ar ei liwt ei hun… yn lliniaru pryder mewn perthynas â gofynion ychwanegol ar adnoddau’r Cyngor.” | Ddim yn berthnasol |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | “Mwy o fanylion ynglŷn â meini prawf pryd y byddan nhw’n ymchwilio, a byddai enghreifftiau efallai o’r byd tai yn wirioneddol ddefnyddiol inni er mwyn ein helpu ni i wella a pharatoi yn barhaus ar gyfer y system newydd.” | Mae fy swyddfa i wedi ymateb i CTCC drwy ddweud bod ein hagwedd tuag at y pwerau newydd yn gefnogol a bydd yr Asiantaeth Cynnal Plant yn datblygu hyfforddiant ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | “… angen eglurdeb ynglŷn â’r … cyfle i symud y mater ymlaen o dan reoliadau ‘Gweithio i Wella’ fel ffordd amgen os ydyn nhw’n dymuno.” | Bydd y Weithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun yn egluro pa bryd y gellid defnyddio Gweithio i Wella. |
| Cyngor Gwynedd | “ … bydd yn haws asesu’r system newydd, yn arbennig felly'r ‘ymchwiliadau ehangach’ … ar ôl cael profiad ymarferol ohoni yn gweithio. | Ddim yn berthnasol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Dim sylwadau ar y dogfennau Ar ei Liwt ei hun. | Ddim yn berthnasol |

| Ymgynghorai | Crynodeb o'r Sylwadau | Camau gweithredu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | "Beth yw'r diffiniad o 'potensial' ac 'eang'?" | Mae tudalen wybodaeth fy ngwefan yn cynnwys diffiniadau o'r termau a ddefnyddir, lle y bo'n bosibl. Bydd yn egluro hefyd pam y gall termau fod yn fwriadol aneglur, er mwyn galluogi cwmpas ar gyfer amrediad eang o broblemau. |
| | "Gyda phwy fydd OGCC yn ymgynghori er mwyn ceisio cael barn ynglŷn â rhinweddau ymchwilio?" | Mae ymgyngoreion yn cael eu hamlinellu yn y Weithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun. |
| | Mae angen am "… fwy o eglurder .. ynglŷn â'r trefniadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â chwythu'r chwiban." | Bydd tudalen wybodaeth fy ngwefan yn egluro swyddogaeth chwythu'r chwiban mewn ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun. |
| | "Pa lefel o ymglymiad a fydd gan y Cyngor yn yr ystyriaeth gan yr Ombwdsmon i geisio cael barn ynglŷn â rhinweddau ymchwilio [a] hysbysebu/rhoi cyhoeddusrwydd i ymchwiliad arfaethedig?" | Mae adrannau 6.2 a 7.2 o'r Weithdrefn yn amlinellu'r ymgyngoreion a phan fyddai'r Cyngor yn cael y cyfle i roi sylwadau ynglŷn ag ymchwiliad arfaethedig. |

| Ymgynghorai | Crynodeb o’r Sylwadau | Camau gweithredu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | “Ni fyddai …’ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun’ yn cynnwys gallu i ailagor unrhyw gwynion a ddaeth i ben … byddai’r Meini Prawf yn cael budd o ddweud hynny yn glir.”<br><br>“ mae cynnwys ASau/ACau yn y rhai hynny a all ddod â materion at eich sylw… yn gallu cyflwyno elfen wleidyddol.”<br><br>Dylai a7.1 o’r Polisi… ddweud “pam na dderbyniwyd… y ffyrdd amgen.” | Bydd y pwynt hwn yn cael ei egluro ar dudalen wybodaeth fy ngwefan.<br><br>Mae gan ASau/ACau swyddogaeth bwysig mewn dod â materion i’m sylw.<br><br>Mae geiriad yr adran hon wedi cael ei ddiwygio. |